

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Salon Gwallt a Harddwch Sultans,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 8 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-428-4

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

| | |
|---|----|
| 1. Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. Crynodeb o'r arolygiad..... | 6 |
| 3. Yr hyn a nodwyd gennym | 10 |
| • Ansawdd Profiad y Claf..... | 10 |
| • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol..... | 12 |
| • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth..... | 14 |
| 4. Y camau nesaf | 16 |
| 5. Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 17 |
| 6. Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith | 18 |
| 7. Atodiad C - Cynllun gwella..... | 20 |

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Salon Gwallt a Harddwch Sultans ar 8 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i ddarparu triniaethau laser i gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. Roedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn ymweld â'r cleifion.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r cleifion cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Fodd bynnag, mae angen addasu'r ffurflen gydsynio er mwyn dangos unrhyw newidiadau yn hanes meddygol y claf ers ei ymweliad diwethaf.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi diweddarau ac adolygu'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Fodd bynnag, nid oedd copïau caled o'r naill na'r llall ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Anfonwyd copïau ohonynt i AGIC wedi hynny, a gwelwyd bod angen diweddarau rhywfaint o'r ddau. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod copïau bellach ar gael yn y gwasanaeth. Dylai gwybodaeth am hygyrchedd i gleientiaid hefyd gael ei hadlewyrchu yn natganiad o ddiben y gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnig hebryngwr i gleifion os bydd ei angen arnynt
- Er mwyn sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn hygyrch i bobl mewn cadair olwyn, roedd angen gwneud addasiadau i'r safle i oresgyn gris wrth fynedfa'r safle.
- Diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn llawn a darparu copïau ohonynt yn y gwasanaeth ar gais
- Addasu'r ffurflen gydsynio er mwyn cynnwys adran i nodi lle na fu unrhyw newidiadau yn hanes meddygol y claf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Rhoi gwybodaeth i'r cleifion am y gofal a'r driniaeth a ddarperir, gan gynnwys ôl-ofal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y clinig wedi rhoi trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser a sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel

Roedd y cofnodion cleientiaid a welwyd yn cael eu cadw mewn ffolder dan glo, a dim ond y rheolwr cofrestredig allai gael mynediad ati.

Roedd polisi diogelu cynhwysfawr ar waith, y byddai'n fuddiol iddo gynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a'u manylion cyswllt. Roedd gwelliannau wedi'u gwneud i bolisiau a gweithdrefnau eraill ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys y rheini yn ymwneud â rheoli heintiau, amserlen lanhau a rheoli risg.

Fodd bynnag, nid oedd polisi cwynion wedi'i roi ar waith ac mae angen cynnwys cofnod yn y polisi rheoli risg o hyd i ddangos pan fydd camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ddyddiad targed ar gyfer cwblhau'r cam gweithredu. At hynny, mae angen i'r rheolwr cofrestredig wneud nifer o welliannau i'r trefniadau diogelwch tân.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mesurau, asesiadau a gwiriadau diogelwch tân perthnasol ar waith drwy gyflwyno rhagofalon diogelwch tân priodol, a'u cynnal. Dylai hyn gynnwys:

- Cynnal ymarferion diogelwch tân rheolaidd ar gyfer y staff, a'u dogfennu
- Sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân addas a hyfforddiant gloywi
- Rhoi cyfarpar diogelwch tân ar waith a'i gynnal a'i gadw, er mwyn dangos bod gwiriadau wedi'u cwblhau
- Rhaid i'r gwiriadau hyn gael eu dogfennu'n rheolaidd er mwyn dangos bod arferion/rhagofalon diogelwch tân priodol ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r polisi asesu risg tân er mwyn adlewyrchu'n gywir yr allanfa dân ychwanegol a'r materion yn ymwneud â chydymffurfio â gweithdrefnau diogelwch tân.
- Adolygu'r polisi diogelwch er mwyn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a'u manylion cyswllt
- Rhoi polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith
- Cynnwys cofnod yn y polisi rheoli risg i ddangos pan fydd camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ddyddiad targed ar gyfer cwblhau cam gweithredu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafell driniaeth yn ymddangos yn lân ac yn daclus ar ddiwrnod yr arolygiad
- Roedd gan y clinig gofrestr triniaeth a oedd yn cael ei chwblhau'n briodol
- Roedd prosesau gwasanaethu cyfarpar yn gyfredol ac roedd gwiriadau graddnodi ar gyfer y laser yn cael eu cynnal yn rheolaidd.
- Gwelwyd Rheolau Lleol wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar a thystiolaeth o Gynghorydd Diogelu rhag Laserau cymwysedig.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb Cyffredinol

Yn gyffredinol, gwelwch fod y rheolwr cofrestredig, sef unig weithredwr y cyfarpar laser, yn frwdfrydig am ei gwaith a thuag at y cleientiaid. Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymddangos yn wybodus am y triniaethau a gynigir yn y clinig. Ategwyd hyn gan dystiolaeth ddogfennol o hyfforddiant cysylltiedig ychwanegol a gwblhawyd.

Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion, cymorth cyntaf ac anaffylacsis yn ddiweddar.

Y dyddiad ar dystysgrif ddiweddaraf y rheolwr cofrestredig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) oedd 2019 ac, felly, mae angen ei hadnewyddu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Llunio adroddiad blynyddol yn unol â rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'i gyflwyno i AGIC
- Gwneud cais am dystysgrif gyfredol gan y DBS

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig am ei gwaith a thuag at y cwsmeriaid
- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau nifer o gyrsiau hyfforddi mewn perthynas â'r gwaith a wneir

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ni chawsom unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau.

Urddas a pharch

Gwelsom fod un ystafell driniaeth â drws y gellir ei gloi yn Salon Gwallt a Harddwch Sultans. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym mai dim ond drwy apwyntiad y gellid ymweld â'r clinig a bod drws yr ystafell driniaeth yn cael ei gadw dan glo pan fyddai'r ystafell yn cael ei defnyddio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.

Nid oedd y gwasanaeth yn cynnig hebryngwyr ar hyn o bryd, ond gallai cleientiaid ofyn am i ffrind neu aelod o'r teulu gael dod gyda nhw yn gwmni pe bai angen.

Cyfathrebu'n effeithiol

Nid oedd copïau caled o'r datganiad o ddiben na'r canllaw i gleifion ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, a chafodd hyn ei nodi yn yr arolygiad blaenorol ym mis Mehefin 2022 hefyd. Gwelwyd copi electronig o'r datganiad o ddiben ar y diwrnod ac anfonwyd copïau o'r ddwy ddogfen i AGIC dros e-bost wedi hynny.

Nid oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y gwasanaeth. Trafodwyd hyn ymhellach a gwnaethom argymhell y dylid gwneud cynnig rhagweithiol i gleientiaid. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai cynnig yn cael ei wneud, a hynny drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y rhyngwyd priodol.

Gallai'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth siarad amrywiaeth o ieithoedd a oedd yn diwallu anghenion y gymuned leol a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, megis: Arabeg, Cwrdeg, Saesneg a Pherseg.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r cleifion cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd hyn yn cael ei nodi ar y ffurflen gydsynio a'i gydnabod drwy lofnod y cleient. Fodd bynnag, mae angen addasu'r ffurflen gydsynio fel bod modd cofnodi unrhyw newidiadau yn hanes meddygol y claf ers ei ymweliad diwethaf.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod pob cleient yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn cytuno i gael triniaeth. Gwelsom dystiolaeth y byddai'r ffurflen gydsynio, a oedd yn cofnodi hanes meddygol y cleient, yn cael ei chwblhau ar adeg yr ymgynghoriad. Roedd y ffurflen gydsynio hon yn cynnwys adran sylwadau, lle y gellid cofnodi unrhyw newidiadau yn hanes meddygol y cleient. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflen yn cynnwys adran i gofnodi lle na fu unrhyw newidiadau yn hanes meddygol y cleient. Roedd angen addasu'r ffurflen gydsynio er mwyn dangos a oedd hanes meddygol y cleient wedi newid ers ei ymweliad diwethaf.

Yn ystod yr arolygiad, edrychwyd ar sampl o gofnodion pedwar cleient. Copïau caled yn unig oedd ar gael o'r rhain, ac roeddent yn cynnwys manylion digonol am yr driniaeth a roddwyd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedwyd wrthym fod y clinig yn croesawu pawb, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio. Hefyd, dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleientiaid trawsryweddol yn cael eu cynnal ac y byddai rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio ar gyfer y cleientiaid hyn. Gwelsom hefyd fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym y gallai cleientiaid a oedd yn defnyddio cadair olwyn gyrraedd yr ystafell driniaeth gyda chymorth gan y staff wrth y drws ffyrnt, gan fod gris i mewn i'r adeilad. Nododd y rheolwr cofrestredig y byddai'r staff wedyn yn helpu'r cleient i mewn i'r adeilad. Argymhellwyd y dylid ystyried y trefniadau hygrychedd i bobl ag anawsterau symudedd. Dylai gwybodaeth am hygrychedd i gleientiaid hefyd gael ei hadlewyrchu yn natganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Y brif ffynhonnell adborth ar y gwasanaeth oedd ei dudalen Facebook. Dywedwyd wrthym pan fyddai adborth yn cael ei roi, y byddai'r rheolwr cofrestredig yn cael hysbysiad a byddai wedyn yn ymateb i'r adborth hwnnw. Er i ni weld dystiolaeth o hyn, roedd yr adborth a nodwyd yn ymwneud â'r gwasanaethau heb eu cofrestru a ddarperir.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd polisiau a gweithdrefnau wedi'u diweddarau ers yr arolygiad, gan gynnwys y rheini yn ymwneud â rheoli heintiau, amserlen lanhau a rheoli risg. Fodd bynnag, nid oedd y polisi rheoli risg yn cynnwys tystiolaeth yn nodi bod camau gweithredu wedi'u cwblhau nac amserlen ar gyfer eu cwblhau.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf ac anaffylacsis yn ddiweddar. Gwelsom fod bocs cymorth cyntaf ar gael a bod popeth ynddo yn gyfredol.

Roedd rhai gwelliannau wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â threfniadau diogelwch tân, gan gynnwys gosod arwyddion allanfa dân a darparu allanfa dân ychwanegol. Fodd bynnag, ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu unrhyw dystiolaeth bod gwiriadau diogelwch tân wedi'u cynnal ar larymau tân, diffoddwyr tân, synwryddion mwg nac unrhyw gyfarpar diogelwch tân cysylltiedig ar y safle. Hefyd, nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfennol bod ymarferion tân wedi'u cynnal a dywedwyd wrthym nad oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân yn y gwasanaeth.

At hynny, roedd angen ychwanegu dyddiad gweithredu a dyddiad adolygu at y polisi asesu risg tân a ddarparwyd. Roedd hefyd angen ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'n gywir yr allanfa dân ychwanegol a'r materion o ran cydymffurfio â gweithdrefnau diogelwch tân a oedd yn weddill unwaith y cydymffurfir â'r rhain.

Ymdriniwyd â'r materion hyn o dan broses hysbysiad diffyg cydymffurfio AGIC. Cyfeirir at y rhain yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân ac yn daclus. Roedd polisi rheoli heintiau ar gael, a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol, ac roedd tystiolaeth o hylendid dwylo da. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod dwylo'n cael eu golchi a hylif diheintio dwylo yn cael ei ddefnyddio cyn unrhyw apwyntiad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y gwely triniaeth yn cael ei lanhau a bod y gorchudd tywel papur yn cael ei newid rhwng cleientiaid. Roedd amserlen lanhau ar waith a gwelsom ei bod yn cael ei chwblhau'n ddyddiol.

Cadarnhaodd y staff nad oedd y gwasanaeth yn cynhyrchu unrhyw wastraff peryglus yr oedd angen ei waredu drwy broses arbenigol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'i amodau cofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd yn unig.

Roedd polisi diogelu ar gael, y byddai'n fuddiol iddo gynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol a'u manylion cyswllt. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd wedi cwblhau hyfforddiant lefel dau ar ddiogelu oedolion yn ddiweddar.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth gwaredu blew ac adfywio'r croen gan ddefnyddio peiriant Goleuni Pwls Dwys (IPL).

Gwelsom fod contract ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau (LPA) i roi cyngor arbenigol ar ddiogelwch wrth ddefnyddio'r peiriant laser/IPL o ddydd i ddydd. Gwelwyd copi o'r rheolau lleol, a oedd wedi'u hadolygu gan yr LPA, yn ystod yr arolygiad hefyd.

Gwelsom dystysgrif a oedd yn dangos bod yr LPA yn aelod o Gyngorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd 2000 (RPA) ac roedd cofnod i ddangos bod y laser wedi'i wasanaethu yn ddiweddar. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod gwiriadau perthnasol ar y peiriant a'r cyfarpar cysylltiedig yn cael eu cwblhau cyn apwyntiadau.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd sbectolau diogelwch priodol ar gael a gwelsom eu bod mewn cyflwr da ac yn cynnwys diogelwch blocio'r llygaid. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod sbectolau diogelwch bob amser yn cael eu gwirio cyn triniaethau.

Roedd clo bysellbad ar yr ystafell driniaeth ac arwydd i gadw allan pan oedd y laser yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr a enwyd y laser ac roedd yr allwedd i weithredu'r peiriant laser yn cael ei gadw'n ddiogel dan glo pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleientiaid yn cael eu cadw mewn ffolder dan glo, a dim ond y rheolwr cofrestredig allai gael mynediad ati. Dywedwyd wrthym y byddai cofnodion yn cael eu gwaredu ddau neu dri mis ar ôl i'r driniaeth gael ei chwblhau. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw am gyfnod o wyth mlynedd o leiaf, yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Roedd cofrestr o driniaethau cleifion ar waith, a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig, sef yr unig aelod o staff, sy'n berchen ar Salon Gwallt a Harddwch Sultans ac yn ei redeg o ddydd i ddydd, ac mae'n weithredwr laser awdurdodedig.

Gwelsom fod tystysgrif gofrestru gyfredol gan y DBS wedi'i harddangos ar un o waliau'r ystafell driniaeth, ond nid oedd yn cynnwys yr amodau cofrestru. Felly, dywedwyd wrth y rheolwr cofrestredig y dylai sicrhau bod y wybodaeth hon hefyd yn cael ei harddangos.

Nid oedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr yswiriant hwn wedi'i drefnu a darparodd fersiwn electronig a oedd yn cadarnhau bod taliad wedi'i wneud i ddarparwr yswiriant. Anfonwyd fersiwn gyfredol o dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y gwasanaeth i AGIC wedi hynny. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd y manylion ar y dystysgrif yn gywir, fel mân amrywiad i enw a chyfeiriad y gwasanaeth. Dylai'r rheolwr cofrestredig gysylltu â'i ddarparwr yswiriant er mwyn sicrhau y caiff y diwygiadau angenrheidiol eu gwneud neu gadarnhau bod y dogfennau cyfredol yn ddilys.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y gwasanaeth yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd. Rhaid i hyn gael ei gwblhau fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Yn dilyn yr arolygiad, hysbysodd y rheolwr cofrestredig AGIC am nifer o gamau gweithredu a gwblhawyd yn dilyn yr argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd hyn yn dangos bod y rheolwr cofrestredig yn awyddus i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn bodloni gofynion rheoliadol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Nid oedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn y gwasanaeth. Roedd hyn yn ofynnol yn dilyn yr arolygiad blaenorol.

Dywedodd y rheolwr y byddai'n ymdrin ag unrhyw gwynion ac yn ymateb yn bersonol lle y bo'n bosibl. Dywedodd y rheolwr wrthym na chafwyd unrhyw gwynion am y gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod llyfr nodiadau ar gael i gofnodi unrhyw gwynion a phryderon ffurfiol neu anffurfiol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y peiriant IPL. Gwelwyd bod tystysgrif craidd gwybodaeth dyddiedig 2018 wedi'i harddangos.

Gwelwyd tystiolaeth ddogfennol o hyfforddiant cysylltiedig ychwanegol a gwblhawyd gan y rheolwr cofrestredig, gan gynnwys tystysgrif lefel tri yn y canlynol:

- Egwyddorion ymarfer cosmetig ar gyfer ymarferwyr anesthetig
- Egwyddorion iechyd a diogelwch ar gyfer ymarfer anaesthetig, asesu cleientiaid a dadansoddi croen
- Cyfathrebu ac ymgynghori - anatomi a seicoleg ar gyfer triniaethau croen.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Y dyddiad ar dystysgrif ddiweddaraf y rheolwr cofrestredig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) oedd 2019. Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried ei hadnewyddu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|--|--|--|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Salon Gwallt a Harddwch Sultans

Dyddiad yr arolygiad: 8 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--------------------------------|--|------------------|------------|
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mesurau, asesiadau a gwiriadau diogelwch tân perthnasol ar waith drwy gyflwyno rhagofalon diogelwch tân priodol, a'u cynnal. Dylai hyn gynnwys:</p> <p>Cynnal ymarferion diogelwch tân rheolaidd ar gyfer y staff, a'u dogfennu</p> | Rheoliad 26 (4)(a)(c)(d)(e) | <p>Ar 09/11/2022, cyfarfûm â phedwar cyflogai'r gwasanaeth er mwyn trafod hyfforddiant tân a chynnal ymarfer tân. Dywedais wrthynt mai'r sawl sy'n gweld y tân sy'n gyfrifol am alw'r gwasanaeth tân, ac nad mater i'r rheolwr (fi fy hun) yn unig ydyw.</p> <p>Gwnaethom drafod y weithdrefn i'w dilyn os byddant yn clywed y larwm tân yn seinio, sef y dylent ofyn i'w cleient adael yr adeilad yn bwyllog drwy'r allanfa dân agosaf, gan fod gennym ddwy allanfa</p> | Nihayat Maulud | 19/11/2022 |

Sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân addas a hyfforddiant gloywi

Rhoi cyfarpar diogelwch tân ar waith a'i gynnal a'i gadw, er mwyn dangos bod gwiriadau wedi'u cynnal ar larymau tân, diffoddwyr tân, synwryddion mwg nac unrhyw gyfarpar diogelwch tân cysylltiedig ar y safle. Rhaid i'r gwiriadau hyn gael eu dogfennu'n rheolaidd er mwyn dangos bod arferion/rhagofalon diogelwch tân priodol ar waith.

dân erbyn hyn, a sefyll mewn rhes wrth yr eglwys ger y cling.

Rwyf hefyd wedi llunio amserlen ar gyfer y cyfarfod hyfforddiant tân nesaf, a gynhelir bob tri mis er mwyn atgoffa pawb am y weithdrefn i'w dilyn.

Rwyf hefyd wedi cwblhau asesiad risg tân ar-lein yn llwyddiannus. Rwyf wedi meithrin rhagor o wybodaeth am sut i ddelio'n hyderus â tân ac achosion o seinio'r larwm tân yn ddiangen yn y gweithle ac wedi gallu rhannu'r wybodaeth hon â'r staff.

Rwyf wedi lanlwytho'r dystysgrif.

Hefyd, cafodd y salon ei arolygu gan Capital Fire Protection ar 15/11/2022 ac mae gennyf dystysgrif sy'n cadarnhau bod y larwm tân a'r diffoddwyr tân yn gweithio'n iawn. Byddaf yn eu gwirio'n bersonol yn rheolaidd hefyd ac yn cofnodi fy nghanfyddiadau. Rwyf wedi lanlwytho'r dystysgrif

Nihayat Maulud

Cwblhawyd

Nihayat Maulud

Cwblhawyd

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Nihayat Maulud

Enw (priflythrennau): Nihayat Maulud

Teitl swydd: Goruchwyliwr IPL

Dyddiad: 15/11/2022

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Salon Gwallt a Harddwch Sultans

Dyddiad yr arolygiad: 8 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|------------------|------------|
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnig hebryngwr i gleifion. | Safon 10 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer | Gofynnir i bob cleient a fyddai'n dymuno i hebryngwr fod yn bresennol yn yr | Nihayat Maulud | Ar unwaith |

| | | | | |
|---|---|---|-----------------------|-------------------|
| | <p>Gwasanaethau Gofal lechyd Annibynnol yng Nghymru</p> <p>Rheoliad 18 o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>ystafell. Os bydd yn dymuno i hebryngwr fod yn bresennol, gallwn alw cydweithiwr i aros gyda ni yn yr ystafell.</p> | | |
| <p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried gwneud addasiadau i fynedfa'r adeilad er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth ag anabledd fynd i mewn ac allan yn ddiogel.</p> | <p>Safon 12 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p> <p>Rheoliad 26 o Reoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Rwyf wedi diwygio'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben ac wedi nodi os bydd angen help ar rywun sy'n defnyddio cadair olwyn i ddod i mewn i'r adeilad, y gall roi gwybod i ni ymlaen llaw er mwyn i ni allu trefnu'r cymorth hwnnw. Er enghraifft bydd un aelod o'r staff yn ei wthio i mewn i'r salon. Mae'r drws yn dal ei hun. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn gwneud yr un peth gyda phobl â phramiau. Os byddwn eu gweld yn cael trafferthion, byddwn yn eu helpu i ddod i mewn heb</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ar unwaith</p> |

| | | | | |
|--|--|--|----------------|------------|
| | | iddynt orfod gofyn am hynny ymlaen llaw. | | |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben eu diweddarau. Rhaid sicrhau bod y ddwy ddogfen ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac unrhyw un sy'n gweithredu ar eu rhan yn unol â'u cais. | Safon 1 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol Rheoliad 6, 7 ac 8 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Diweddarwyd y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben ac maent ar gael yn y clinig os bydd y cleientiaid yn gofyn amdanynt | Nihayat Maulud | Ar unwaith |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig geisio barn y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd ac ystyried ffyrdd eraill o gasglu adborth o'r fath. | Safon 6 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol Rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Gofynnir i gleientiaid yn barhaus am adborth a sut maent yn teimlo yn ystod triniaethau. Rydym hefyd yn gofyn i bob cleient bostio adborth ar y cyfryngau cymdeithasol ar ôl pob ymweliad. Rydym hefyd wedi darparu holiadur dienw yn yr ystafell IPL y gallant ei lenwi a'i roi yn y blwch a ddarperir. Byddwn yn edrych ar yr holiaduron a gwblhawyd yn rheolaidd fel y gallwn wella ein gwasanaeth. | Nihayat Maulud | Ar unwaith |

| | | | | |
|--|---|--|-----------------------|--------------------|
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud newidiadau i'r ffurflen gydsynio er mwyn cynnwys adran i nodi newidiadau yn hanes meddygol y claf.</p> | <p>Safon 20 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p> <p>Rheoliad 23(1)(a)(ii) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Gwnaed newidiadau i'r ffurflen er mwyn sicrhau y gofynnir i gleientiaid am eu hanes meddygol yn ystod pob ymweliad ac nid dim ond yn ystod y sesiwn gyntaf.</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ar unwaith</p> |
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi diogelwch er mwyn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau diogelu lleol a'u manylion cyswllt.</p> | <p>Safon 11 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p> <p>Rheoliad 16(1)(b) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Ychwanegwyd gwybodaeth am wasanaethau diogelu lleol a'u manylion cyswllt</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ar unwaith</p> |
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig lunio polisi cwynion a gweithdrefn gwyno a'u rhoi ar waith.</p> | <p>Safon 23 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p> <p>Rheoliad 24(1) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau'n rhannol ac yn mynd rhagddo</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ionawr 2023</p> |

| | | | | |
|--|--|--|-----------------------|-------------------|
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi rheoli risg i ddangos yn glir pan fydd camau gweithredu wedi'u cwblhau neu ddyddiad targed ar gyfer cwblhau'r cam gweithredu.</p> | <p>Safon 22 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p> <p>Rheoliad 9 1(e) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Mae hwn wedi'i greu ac mae dyddiad adolygu wedi'i bennu</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ar unwaith</p> |
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion gofal iechyd eu cadw am gyfnod o wyth mlynedd o leiaf, o ddyddiad y cofnod diwethaf.</p> | <p>Safon 20 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol</p> <p>Rheoliad 23 (1) (b), atodlen 3, rhan 1 (i) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Caiff ffurflenni cleientiaid eu cadw mewn man diogel am 10 blynedd.</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ar unwaith</p> |
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.</p> | <p>Rheoliad 19 (1)(a)(b) (2)(a)(b)(i)(ii)(iv)(v) (c)(i)(ii) (d) (e) (3) (4) (5) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011</p> | <p>Cyfathrebu'n gyson â chleientiaid yn ystod triniaethau i weld a ydynt yn fodlon ar y gwasanaeth a'r canlyniadau. Rydym yn gofyn iddynt roi adborth drwy holiadur ac ar y cyfryngau cymdeithasol os nad ydynt yn</p> | <p>Nihayat Maulud</p> | <p>Ar unwaith</p> |

| | | | | |
|--|--|---|--|--|
| | | gyfforddus yn trafod wyneb yn wyneb. Mae'r ffaith bod cleientiaid yn dychwelyd atom yn profi eu bod yn fodlon ar y triniaethau y maent yn eu cael. Mae gennyf hefyd lyfr cwynion er mwyn cofnodi unrhyw gwynion, ymateb iddynt a gwella oddi wrthynt. | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth Nihayat Maulud

Enw (priflythrennau): Nihayat Maulud

Teitl swydd: Therapydd laser IPL

Dyddiad: 12/12/2022